CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD CYLLIDEB
NOS IAU 23ain IONAWR 2014 AM 7.00PM
FESTRI CAPEL SHILOH LLANBEDR PONT STEFFAN

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawodd y Cadeirydd sef y Gyng. Maer Dorothy Williams bawb i'r Cyfarfod. Eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd pennu maint y presept (y dreth leol a godir gan Gyngor y Dref) am y flwyddyn ariannol Ebrill 2014-Mawrth 2015.
   YN BRESENNOL
   Y Maer Y Gyngh. D. Williams; Dirprwy-Faer y Gyng. E.Dafis; **Cynghorwyr Tref**: J.Davies; H. Harris; A. Morgan; R. Phillips, K. Ramaya; S. Walters & D.Wilson.
2. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:**Y Cyngh. A.Carter; D.Smith & C.Thomas.
3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL: DIM.**
4. **PENNU'R PRAESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL NESAF**
   Trafodwyd yn fanwl, yr Adroddiad Gyllideb (ynghlwm). **PENDERFYNWYD** trwy bleidlais unfrydol i gadw lefel y Praesept yr un peth yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf sef £41,000 sy'n cynrychioli tâl o £46.25 y flwyddyn ac 89ceiniog yr wythnos ar gyfer Treth Dalwr Band D. Y mae'r tâl yn is ar gyfer TrethDalwr Llanbedr PS wrth ystyried chwyddiant (@2%). Y mae'r ffigwr wedi aros yr un peth ond y mae gwerth y ffigwr wedi disgyn. Roedd aelodau o'r farn y gellid cwrdd â gwariant tebygol bob dydd y flwyddyn nesaf o fewn y gyllideb o £41,000. Gellir cwrdd â gofynion ychwanegol o'r Cyfrif Arbedion. Ystiriwyd y cyllid yn ymwneud â'r Camerau Teledu Cylch Cyfyng a saif ansicrwydd parthed y gost ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd y gallai'r Cyngor Sir gyflwyno newidiadau yn ymwneud â'r ddarpariaeth. Ystyriwyd yr arian wrth gefn (£125,000 y ffigur disgwyledig ar gyfer yr 31/03/2014). Adroddwyd y gallai'r Cyngor Tref wynebu herion ariannol yn ystod y dyfodol, gan fod Prydain yn wynebu toriadau aruthrol parthed gwariant cyhoeddus ac oherwydd y ddirwasgiad.
5. **TALIADAU**
   - **5.1 POLISI YSWIRIANT Y CYNGOR TREF**
     PENDERFYNWYD ystyried chwyddiant a fydd yn golygu tâl ychwanegol o £48, wrth gymharu â'r flwyddyn cynt - £1,920.98.
   - **5.2 Transition Llambed** Ieuainc Mewn Ysbryd, Neuadd Fictoria £42 - 13.11.13
   - **5.3 Transition Llambed** Ieuainc Mewn Ysbryd, Neuadd Fictoria £64.50 4.12.2013
   - **5.4 Cyflog y Clerc Rhagfyr 2013 2013 £705.66;** Cyllid a Thollau EM £20.51.
   - **5.5 Golau/Gwres/Trydan (Clerc):** 9 mis: £180.
   - **5.6 Cymdeithas Tai Cantref:** Deunydd ar gyfer strwythur yr helyg £300.
   - **5.7 Gwasanaethau Coed Llambed**:Parc-yr-Orsedd£350;TAW £70= £420.
   - **5.8 PROSIECT BALCHDER PENTREFI;** A wnewch chi gyfeirio i Atodiad 2 sydd ynghlwm â'r Adrdoddiad Cyllid parthed Incwm a Gwariant yn ymwneud â'r Prosiect hwn**.**
   - **5.9 Treuliau:** Y Gyngh. Elsie Dafis. £272.74; TAW £6.34.
   - **5.10 SWALEC**: Golau ger y Gofgolofn: £14.02; £0.71 TAW.
   - **5.11 Mr D Dudley:** Golau'r Gofgolofn: £139.90; TAW £27.98; CYFANSWM £167.88
   - **5.12 Cais am gymorth ariannol gan Marie Curie Gofal Cancr:**
     PENDERFYNWYD gwneud cyfraniad o £50.00.
   - **5.13 PENDERFYNWYD derbyn y dyfynbris a** dderbyniwyd oddi wrth Gwasanaethau Coed Llanbedr PS ar gyfer gwaith coed ger y Gofgolofn: syrthio dwy goeden fythwyrdd a'u symud o'r safle £480 + TAW ac i falu'r boncyff coed syrthiedig £100 + TAW.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm.DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 30 Ionawr 2014 am 7.30pm yn Neuadd San Pedr, Llanbedr PS.
(Arwyddwyd
Cadeirydd/Dyddiad)_____